Senedd Cymru
**Y Pwyllgor Biliau Diwygio**

# Cylch gorchwyl y Pwyllgor

13 Medi 2023

## Diben

**1.** Mae'r papur hwn yn amlinellu cefndir sefydlu'r Pwyllgor Biliau Diwygio, ac yn rhoi gwybodaeth am ei gylch gorchwyl a'i rôl.

## Cefndir ac aelodaeth

**2.** Ar 11 Gorffennaf 2023, cytunodd y Pwyllgor Busnes i gynnig i'r Senedd y caiff pwyllgor, sy'n cynnwys pedwar Aelod ac a gadeirir gan aelod o grŵp Llafur Cymru, ei sefydlu i graffu ar Filiau a gyfeirir ato gan y Pwyllgor Busnes.

**3.** Ar 12 Gorffennaf 2023, pleidleisiodd y Senedd o blaid sefydlu Pwyllgor Biliau Diwygio. Etholodd y Senedd David Rees AS (Llafur Cymru) yn Gadeirydd, a phenodi'r aelodau Pwyllgor a ganlyn:

- Heledd Fychan AS (Plaid Cymru)
- Darren Millar AS (Ceidwadwyr Cymreig)
- Sarah Murphy AS (Llafur Cymru)

**4.** Cytunodd y Cadeirydd wedi hynny, yn unol â Rheol Sefydlog 17.49, y caiff Jane Dodds AS (Democratiaid Rhyddfrydol Cymru) gymryd rhan (ond nid pleidleisio) yng nghyfarfodydd y Pwyllgor a gweithgarwch arall.

## Cylch gorchwyl y Pwyllgor

**5.** Cylch gorchwyl y Pwyllgor yw craffu ar Filiau a gyfeirir ato gan y Pwyllgor Busnes.

**6.** Bydd y Pwyllgor yn cael ei ddiddymu naill ai:

- pan fo’r holl Filiau a gyfeirir at y Pwyllgor wedi cael y Cydsyniad Brenhinol ac mae'r Pwyllgor Busnes wedi penderfynu na fydd rhagor o Filiau’n cael eu cyfeirio at y Pwyllgor; neu
- pan fo'r Senedd yn penderfynu felly;

pa un bynnag sydd gyntaf.

**7.** Mae Rheol Sefydlog 17 yn nodi gweithdrefnau a rheolau sy'n ymdrin ag ystod o faterion sy'n ymwneud â gweithrediad pwyllgorau'r Senedd.

## Rôl y Pwyllgor yng Nghyfnod 1

**8.** Nodir gweithdrefnau a rheolau sy'n ymwneud â chyflwyno Biliau gan y Senedd a chraffu arnynt yn Rheol Sefydlog 26. Ar gyfer pob Bil a gyfeirir at y Pwyllgor ar gyfer gwaith craffu Cyfnod 1, bydd y Pwyllgor yn trafod ei egwyddorion cyffredinol, gan ganolbwyntio ar brif ddibenion y Bil, yn hytrach nag edrych ar y manylion (sy'n fater ar gyfer cyfnodau diweddarach). Er mwyn llywio ei waith, caiff y Pwyllgor wahodd sylwadau gan bartïon a chanddynt fuddiant, a chaiff gymryd tystiolaeth ysgrifenedig a llafar. Caiff rhagor o wybodaeth am ddull y Pwyllgor o graffu ar bob Bil a gyfeirir ato ei chyhoeddi ar wefan y Pwyllgor maes o law.

**9.** Pan fydd y Pwyllgor wedi cyflwyno adroddiad ar bob Bil a gyfeirir ato, gofynnir i'r Senedd drafod egwyddorion cyffredinol y Bil hwnnw a phleidleisio arnynt. Os caiff y cynnig ei dderbyn, bydd y Bil yn mynd i Gyfnod 2, sy’n cynnwys trafodaeth fanwl o’r gwelliannau a’u gwaredu.

**10.** Mae rhagor o wybodaeth am y broses ddeddfwriaethol ar gael ar wefan y Senedd.